

# Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Craffu Pobl held at The Council Chamber, County Hall, Rhadyr, Usk, NP15  
1GA with remote attendance on Dydd Iau, 19eg Medi, 2024 at 9.30 am

## Councillors Present

County Councillor Laura Wright (Chair)  
County Councillor Jackie Strong, (Vice Chair)

County Councillors: Jan Butler,  
Christopher Edwards, Maureen Powell,  
Sue Riley, Lisa Dymock, Phil Murphy, Tony Kear,  
John Crook, Emma Bryn and Louise Brown

Also in attendance County Councillors:  
Martyn Groucutt, Cabinet Member for Education

## Officers in Attendance

Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu  
Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi a  
Llywodraethiant  
Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc  
Frances O'Brien, Prif Swyddog, Cymunedau a Lle  
Deb Hill-Howells, Pennaeth Gwasanaethau  
Landlord Masnachol ac Integredig

**APOLOGIES:** County Councillors Simon Howarth, Penny Jones and Peter Strong

### 1. Datganiadau o Fuddiant.

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

### 2. Galw penderfyniad i mewn gan y Cabinet ar 11 Medi 2024 yng nghyswllt Poilisi Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol 2025-26.

Gofynnwyd i'r Aelodau a ofynnodd i'r penderfyniad gael ei alw i mewn i siarad yn gyntaf, gan amlinellu eu rhesymau dros wneud hynny.

Cynghorydd Dymock:

Dywedodd y Cynghorydd Dymock fod yr ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig wedi'i amseru'n wael ac nad oedd wedi hysbysu nac yn ymgysylltu'n ddigonol â theuluoedd yr effeithir arnynt gan ei fod yn digwydd yn ystod gwyliau'r haf, pan nad yw teuluoedd yn dilyn eu trefn arferol. Roedd hyn yn lleihau'n sylweddol y tebygolrwydd y byddai rhieni neu warcheidwaid wedi cael yr amser i ymgysylltu'n llawn â'r broses, ac efallai nad oedd llawer o deuluoedd hyd yn oed yn ymwybodol bod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal.

Nododd fod yr Aelod Cabinet wedi trafod yr amseriad yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Craffu Pobl a chyfeiriodd at yr etholiad cyffredinol fel y rheswm dros yr oedi, ond cynhaliodd Rhondda Cynon Taf ei ymgynghoriad rhwng 27ain Tachwedd 2023 a'r 8fed Chwefror 2024, a chafodd ei ymestyn am 3 wythnos i roi cyfle i fwy o bobl gymryd rhan – gofynnodd pam na wnaeth CSF yr un peth. Awgrymodd fod yr Gwaith allgymorth wedi ei gyfyngu, gyda dim ond 411 o ymatebion ac 11 e-bost wedi'u derbyn – cyfradd ymateb isel sy'n codi pryderon difrifol am ddigonolrwydd ymdrechion allgymorth y Cyngor, yn enwedig mewn perthynas â theuluoedd gwledig. Mae llawer o'r rhain yn dibynnu ar gludiant ysgol oherwydd diffyg llwybrau cerdded diogel ac opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus cyfyngedig; roedd teuluoedd felly angen gwybodaeth fanwl, leol am sut y byddai'r newidiadau arfaethedig yn effeithio'n benodol, ond roedd diffyg manylion gronynnog am y cymunedau a'r unigolion a fyddai'n cael eu heffeithio, yn ei gwneud yn anodd i

deuluoedd ddeall yn llawn oblygiadau'r newidiadau polisi – heb hyn, ni fyddai llawer o rieni wedi gallu gwneud cyfraniadau gwybodus i'r ymgynghoriad, na gwerthfawrogi'n llawn yr effaith bosibl ar fywydau beunyddiol eu plant.

Gofynnodd y Cynghorydd Dymock am eglurder ynghylch a oedd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gyhoeddi ar yr un pryd â'r ymgynghoriad; os na, dadleuodd y byddai hyn wedi cyfyngu ar allu ymatebwyr i asesu goblygiadau'r cynigion yn llawn ac y byddai'n tansellio tryloywder yr ymgynghoriad.

Cynghorydd Kear:

Roedd y Cynghorydd Kear yn cefnogi sylwadau'r Cynghorydd Dymock. Gofynnodd a allai'r Aelod Cabinet roi gwybod pwy roddodd y cyngor cyfreithiol ynghylch amseriad yr ymgynghoriad ac a ellid sicrhau bod hwnnw ar gael i'r Aelodau. CAM GWEITHREDU – i'w rannu gyda'r Aelodau

Cynghorydd Murphy:

Amlygodd y Cynghorydd Murphy lwybrau cerdded diogel fel enghraifft o bwysigrwydd ymgynghori priodol. Roedd yn gwerthfawrogi bod angen ystyried y niferoedd presennol bob blwyddyn ond llwybrau sylfaenol, e.e. Caer-went-Cil-y-coed, fod wedi eu hadnabod. Dywedodd preswlydd wrth y Cynghorydd Murphy y byddai'r cynigion yn effeithio ar ei blant gan nad oes llwybr cerdded diogel o Gaer-went i Gil-y-coed, gyda chorneli dall a diffyg palmant mewn rhai mannau – pe bai'r ymgynghoriad wedi bod yn hirach ac ar adeg fwy priodol, byddai enghreifftiau fel y rhain, lle byddai llwybrau cerdded i blant yn anghyfrifol, efallai wedi heb gael eu cynnig. Mae'n siŵr y gallai'r ddadl hon gael ei hailadrodd mewn rhannau eraill o'r sir.

Gan ddyfynnu rhagor o enghreifftiau o lwybrau anniogel, dywedodd y Cynghorydd Murphy y dylai gwaith i ddod â'r mesurau hyn ymlaen yn ddigonol fod wedi'i wneud yn gynt, fel y gwnaeth RhCT. Byddai llwybrau anaddas wedyn wedi cael eu diystyru, gan leddfu pryderon rhieni. Ni fyddai pob rhiant yn gallu cludo plant eu hunain. Roedd yr angen i arbed arian yn cael ei gydnabod yn llawn, ond awgrymodd y Cynghorydd fod yn rhaid cael proses fwy ystyriol, a bod codi penderfyniadau o'r fath mor agos at derfynau amser yn annerbyniol.

Cafwyd yr ymateb a ganlyn gan yr Aelod Cabinet Martyn Groucott:

Eglurodd yr Aelod Cabinet fod cyngor cyfreithiol wedi'i roi gan Swyddog Monitro'r Cyngor, ac ategodd fanylion yr ymgynghoriad: eleni, fe'i cynhaliwyd rhwng 12fed Gorffennaf a'r 23ain Awst. Cwblhaodd 408 o bobl yr arolwg ar-lein a derbyniwyd 11 e-bost. Nododd y bwriedir ymestyn y cyfnod ymgynghori, gan ddechrau'n gynharach: ystyriodd y Cabinet hyn mor gynnar â 30 Ebrill, a rhoddwyd cynlluniau ar waith i'r broses ymgynghori ddechrau ar 3ydd Mehefin, ond cyhoeddwyd yr etholiad cyffredinol ar 22ain Mai a gwnaeth y Swyddog Monitro'n glir na allai'r ymgynghoriad fynd rhagddo yn ystod y cyfnod hwnnw. Felly datblygwyd strategaeth i alluogi cynnal ymgynghoriad manwl, er nad oedd modd ymestyn ei hyd. Honnodd fod y nifer uchaf erioed o ymatebion a dderbyniwyd yn dangos, er bod y cyfnod ymgynghori yn 6 wythnos, yn fyrrach na'r disgwyl, roedd ei effeithiolrwydd yn fwy nag unrhyw un a gynhaliwyd yn flaenorol e.e. yr ymgynghoriad ar gyfer 23-24 a gynhaliwyd rhwng 5ed Awst a'r 16eg Medi 2022, y cafwyd 71 o ymatebion ar ei gyfer, a phryd hynny ni chodwyd unrhyw bryderon gan y Pwyllgor Pobl ynghylch hyd na natur y broses, ac ni chafodd unrhyw un ei alw i mewn. Eleni, er bod y broses yn cael ei chwotgi gan wleidyddiaeth genedlaethol, roedd hyd yr ymgynghoriad yn union yr un fath, ac ni chodwyd unrhyw wrthwynebiad gan y Pwyllgor Craffu Pobl.

Rhododd y Cynghorydd fanylion pellach am yr ymgynghoriad eleni: penderfynodd y swyddogion sicrhau bod pob defnyddiwr Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol yn cael gwybod am yr ymgynghoriad, yn enwedig gan fod newidiadau pwysig yn cael eu hystyried. Cyn diwedd tymor yr ysgol ar gyfer yr haf, sicrhaodd y Penaethiaid fod pob rhiant yn ymwybodol o'r ymgynghoriad, a ddilynwyd gan ymdrech aruthrol gan swyddogion i sicrhau ei lwyddiant: cysylltwyd yn bersonol â phob defnyddiwr, a bu'r tîm Cyfathrebu yn llwyddiannus iawn mewn 'blitz' cyfryngau yn sicrhau bod pob cymuned yn gwbl ymwybodol. Cynhaliodd swyddogion hefyd gyfarfodydd wyneb yn wyneb ym mhob hyb, ac roedd 12 erthygl yn y 3 phapur newydd lleol. O ganlyniad, roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn sylweddol well nag unrhyw un a gynhaliwyd yn flaenorol, gyda 400+ o ymatebion wedi'u cwblhau – dros 100 yn fwy nag ar gyfer yr ymgynghoriad dros gyllideb y Cyngor, er enghraifft.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet ymhellach mai gwelliant arall oedd y defnydd o gyfryngau cymdeithasol. Rhoddwyd deunydd ar Facebook ac X ar 16eg, 19eg, 22ain, 23ain, 28ain, 30ain a 31eg Gorffennaf a'r 1af, 5ed, 8fed, 11eg, 14eg, 17eg, 19eg, 21ain a'r 23ain Awst, ac roedd bron i 60,000 yn gwylio. Anfonwyd fersiwn print bras o'r ymgynghoriad trwy e-bost, ar gais, gan sicrhau bod y rhai ag anghenion ychwanegol yn rhan o'r broses. Mae cyfranogiad felly wedi cynyddu'n aruthrol o'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn flaenorol. Dywedodd y Cynghorydd fod y dystiolaeth yn llethol felly nad oedd yr amser ar gyfer y broses wedi'i leihau, er y byddai wedi'i ymestyn pe bai amgylchiadau wedi caniatáu. Arweiniodd gwaith caled swyddogion i ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid drwy sianeli lluosog at gyfradd ymateb hynod well. Gorffennodd y Cynghorydd Groucott trwy ddweud na allai dderbyn, o ystyried y dystiolaeth o gynnydd sylweddol mewn cyfranogiad, y gellir dadlau'n rhesymol bod yr ymgynghoriad yn aneffeithiol ac y dylid bod wedi ei newid, o ystyried yr amgylchiadau.

Pwyntiau Allweddol gan Aelodau:

Gofynnwyd a oedd yr Aelodau wedi cael y cyfle i weld yr ymatebion gan y cyhoedd er mwyn asesu a oedd yr ymgynghoriad wedi bod yn ddigonol. Ymatebodd swyddogion fod adroddiad y Cabinet yn darparu ystadegau, ond y gallai'r manylion llawn fod ar gael i'r Aelodau pe dymument. Yn yr arolwg, rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd roi sylwadau drwy gwestiynau agored ond gan y byddai wedi bod yn anymarferol cynnwys pob un o'r 411 o ymatebion yn yr adroddiad, cawsant eu crynhoi o amgylch themâu e.e. iaith Gymraeg, a gofynnwyd i ymatebwyr pa gynigion y byddent yn eu cyflwyno i wneud arbedion pe baent yn anghytuno â'r polisi.

Mynegodd aelod ei farn y dylid cynnal ymgynghoriadau yn y Gwanwyn, gan awgrymu y gallai mwy o ymatebion yn yr achos hwn fod oherwydd bod y polisi yn un dadleuol. Nododd yr enghraifft nad oedd un o aelodau'r ward yn ymwybodol o'r ymgynghoriad, a bod Cynghorydd Cymuned wedi mynegi anfodlonrwydd gydag amseriad ac ansawdd y cwestiynau. Mynegodd swyddogion syndod nad oedd unrhyw ddefnyddwyr yn ymwybodol, gyda 3,173 o e-byst wedi'u hanfon ar 12fed Gorffennaf ac anfonwyd dilyniant ar 8fed Awst i atgoffa unrhyw un nad oedd wedi ymateb i wneud hynny.

Mynegodd Aelod ei gefnogaeth i'r cais Galw i Mewn ac awgrymodd fod yr ymgynghoriad wedi methu 2 o'r 4 egwyddor Gunning, a ddefnyddiwyd fel canllaw ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd. Roedd yr amseriad yn ystod gwyliau'r haf yn golygu na fyddai'r ymatebwyr wedi bod o gwmpas, a byddai ymgysylltu isel bob amser, o ganlyniad. Roedd yn gwerthfawrogi'r cynnydd dramatig yn yr adborth gan drigolion o gymharu ag ymgynghoriadau eraill ond awgrymodd y gallai hyn adlewyrchu panig gan ymatebwyr oherwydd amseriad a hyd y cyfnod ymgynghori. Cynigiodd gael dealltwriaeth ynghylch pam y penderfynodd Swyddog Monitro RhCT y byddent yn cynnal eu hymgynghoriad rhwng Tachwedd 2023 a Chwefror 2024.

Gofynnwyd am eglurder ynghylch a oedd ysgol nad oedd wedi'i chynnwys yn Atodiad 1 yn golygu nad oedd y cynigion yn effeithio arni. Cadarnhaodd swyddogion fod yr atodiad ond yn

rhestru'r ysgolion hynny lle darperir gwasanaeth Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol, ac felly'r rhai yr effeithir arnynt.

Gofynnodd yr Aelod am eglurder ynghylch a oedd hyn yn effeithio ar Thornwell. Ymatebodd swyddogion, yn seiliedig ar ffigurau'r llynedd, nad oedd neb wedi'i effeithio yn Thornwell. Oherwydd na fyddai'r polisi hwn yn cymryd lle tan fis Medi 2025, ni fyddai swyddogion yn gofyn am asesiadau cerdded diogel ar lwybrau na fyddai eu hangen y flwyddyn nesaf. Cynhelir asesiadau llwybrau ond byddant yn seiliedig ar geisiadau'r flwyddyn gyfredol unwaith y bydd y rheini wedi'u hasesu, a fyddai'n cynnwys asesiad o Thornwell.

Gofynnwyd am eglurhad pellach am amseriad yr asesiadau. Ymatebodd swyddogion y bydd y tîm yn mynd trwy'r data ac yn canfod pa ddysgwyr fydd yn dal i fod gyda ni o'r 1af Medi 2025, fel y gellir cynnal yr asesiadau hynny. Byddwn yn nodi pa ddysgwyr fydd yn colli cludiant o ganlyniad i'r polisi, pa ddysgwyr sy'n dal gyda ni, ac unrhyw geisiadau newydd a gawn.

O ran yr amseriad mewn perthynas ag ymgynghoriad RhCT, gofynnwyd pryd yr oedd CSF wedi derbyn y wybodaeth berthnasol a phenderfynwyd ymgynghori yn hwyrach na'r Gwanwyn. Ymatebodd yr Aelod Cabinet bod yr amseriad yn rhannol seiliedig ar gynsail hanesyddol yn y weinyddiaeth hon a'r weinyddiaeth flaenorol, er y gellid newid hyn yn y dyfodol, ac ategodd mai'r cynllun oedd dod â'r ymgynghoriad hwn ymlaen ers sawl wythnos. Yn ogystal, ymgwymerwyd â'r ymgynghoriad yn yr Haf oherwydd na fyddai dyddiad gweithredu'r polisi wedyn mor bell i ffwrdd ar gyfer rhieni sydd angen gwneud y cais, a phe bai'r ffenestr yn hirach rhwng ymgynghori a gweithredu efallai y byddai plant newydd hyd yn oed yn symud i mewn i'r Sir rhwng y dyddiadau hynny. Felly, haerodd yr Aelod Cabinet fod RhCT yn ddifffgiol o ran cynnal ei hymgynghoriad gymaint yn gynharach nag y byddai'r polisi'n dechrau.

Mynegodd Aelod werthfawrogiad o'r penderfyniadau sydd angen eu gwneud yn wyneb y gyllideb, ond mai Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol yw un o'r pethau pwysicaf y dylid ei gadw, ac awgrymodd y gallai'r polisi fod yn fwy o newid llym nag o'r blaen. dyna pam yr ymgynghorodd RhCT gymaint ynghynt. Awgrymodd yr Aelod, oherwydd na ymgynghorwyd yn gynharach, y dylid cadw polisi 24/25 ar gyfer 25/26, yn enwedig gan ei bod yn bosibl nad oedd rhieni wedi deall goblygiadau llawn y cynigion. Yna gellid cynnal ymgynghoriad yn y Gwanwyn pan fydd mwy o wybodaeth ar gael.

Awgrymodd yr Aelod ymhellach y dylai hyn ddod o dan y gyllideb Addysg oherwydd mwy o gyswllt ag ysgolion a mewnbwn gan Benaethiaid am oblygiadau'r polisi.

Gofynnwyd a fydd y llwybrau cerdded diogel yn cael eu hasesu erbyn tymor y Gwanwyn fel bod gan rieni fwy o amser i fynd drwy'r broses apelio, os bydd angen. Ymatebodd swyddogion o ran amseru, er mwyn i Aelodau gael digon o dystiolaeth a data i lywio penderfyniadau, roedd angen i swyddogion sicrhau bod amser i wneud hynny. Mae'r tîm yn fach, a'i ffocws ar ddechrau'r flwyddyn yw asesu cymhwysedd ar gyfer y tymor ysgol sydd i ddod. Penderfynwyd hefyd ar yr amseriad er mwyn peidio â chyfuno Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol gyda'r ymgynghoriad ar y gyllideb a'i oblygiadau. Ymdrechodd swyddogion yn galed i sicrhau bod hwn yn ymgynghoriad ar ei ben ei hun a bod gan Aelodau a rhieni'r holl wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt i allu ymateb yn briodol. Byddai angen i unrhyw ymgynghoriadau a gynhelir yn gynharach yn y dyfodol gael eu cynnal pan na fyddent yn cael eu cyfuno â thrafodaethau eraill. Amlygwyd bod asesiadau llwybrau cerdded diogel yn cael eu cynnal gan swyddogion diogelwch ffyrdd annibynnol yn y tîm Priffyrdd, ac nad oes unrhyw fwrriad i roi dysgwyr yn y sefyllfa o gerdded llwybrau anniogel.

O ran nodi carfannau a llwybrau cerdded diogel, gofynnwyd faint o rybudd y gellid ei roi i rieni. Ymatebodd swyddogion y bydd data o'r flwyddyn academiaidd gyfredol yn cael ei ystyried o

ddechrau mis Hydref. Byddwn yn anelu at gysylltu â rhieni y credwn fydd yn cael eu heffeithio erbyn diwedd y flwyddyn galendr gyfredol i'w hysbysu.

Rhannodd Aelod bryder y Cynghorydd Murphy am y ffordd rhwng Caer-went i Gas-gwent a diogelwch plant ond mynegodd ei sicrwydd gan sylwadau'r swyddogion ynghylch pa mor ddifrifol y byddai'n cael ei gymryd gan swyddogion a'r broses asesu diogelwch ffyrdd.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd yr ymgyrch cyfryngau cymdeithasol wedi'i thargedu. Ymatebodd swyddogion fod sylw eang, gydag ymdrechion yn cael eu gwneud i sicrhau ymgyrch gydynol i sicrhau y byddai unrhyw un sy'n cyrchu Facebook neu X yn derbyn nifer o hysbysiadau bod ymgynghoriad yn parhau. Roedd 2,123 wedi edrych ar y dudalen ymgynghori, gan 1140 o unigolion unigryw, gyda chyfanswm o 59,526 o ymweliadau ar draws y ddwy sianel. Ni wnaethpwyd y gwaith targedu trwy gyfryngau cymdeithasol, ond targedwyd rhanddeiliaid trwy e-bost, fel yr eglurwyd uchod. Roedd hefyd yn bwysig targedu'r rheini a allai fod yn rhieni neu'n warcheidwaid yn y dyfodol.

Wrth grynhoi ar ran llofnodwyr sy'n gwneud cais Galw i Mewn, awgrymodd y Cynghorydd Murphy na ddylid rhoi gormod o bwysau ar farn ar-lein. Fel arfer, byddai'r llofnodwyr yn dymuno cyfeirio'r mater i'r Cyngor llawn ond o ystyried yr amserlen fer ar gyfer gwneud hynny cyn y dyddiad cau statudol o'r 1af Hydref, byddent yn argymhell cyfeirio'r mater yn yr achos hwn yn ôl at yr Aelod Cabinet i'w ailystyried.

Crynodeb y Cadeirydd:

Mynegodd y Pwyllgor ei werthfawrogiad i'r swyddogion am eu gwaith caled yn cynnal yr ymgynghoriad. Roedd sylwadau'r Pwyllgor heddiw yn canolbwyntio'n benodol ar edrych ar esiampl Rhondda Cynon Taf a hyd/amseriad ei ymgynghoriad, gydag awgrym i gael trafodaethau gyda'u swyddogion am yr hyn y gellid ei ddysgu ar gyfer ymgynghoriadau yn y dyfodol. Nodwyd bod mwy o ymatebion i'r ymgynghoriad na'r rhai blaenorol, ond y gallai hyn fod oherwydd sgôp y newidiadau. Awgrymodd Aelod efallai yn rhannol oherwydd hyn y gallai'r newidiadau gael eu gohirio tan y flwyddyn academaidd nesaf. Roedd pryderon ynghylch a oedd y cwestiynau'n glir, ond rhoddodd swyddogion sicrwydd i'r Pwyllgor fod rhieni'n gweld yr ymgynghoriad yn hawdd ei ddeall ac ymgysylltu ag ef. Rhoddwyd esboniadau a sicrwydd ynghylch pryd y byddai asesiadau llwybrau cerdded diogel yn cael eu cynnal, er bod pryderon o hyd ymhlith yr Aelodau. Cytunodd yr Aelod Cabinet i rannu'r cyngor cyfreithiol gan y Swyddog Monitro gyda'r Aelodau ynghylch y penderfyniad i newid dyddiad yr ymgynghoriad.

Symudodd y Pwyllgor i bleidlais ar un o'r tri opsiwn:

- 1) Derbyn penderfyniad y Cabinet.
- 2) Cyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet i'w ail-ystyried (gyda rhesymau).
- 3) Cyfeirio'r mater i'r Cyngor i'w ystyried.

Pleidleisiodd y Pwyllgor yn unfrydol dros Opsiwn 2, i gyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet i'w ailystyried.

The meeting ended at **Time Not Specified**